Bwrdd Cyflawni BGC Caerdydd
Cofnodion Dydd Iau 8 Mawrth 2018
Canolfan Gymunedol Butetown

Yn bresennol:

Aelodau'r bwrdd

Paul Orders **(Cadeirydd)**	Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd (CC)
Sheila Hendrickson-Brown **(Is-gadeirydd)**	Prif Swyddog Gweithredol C3SC
Fiona Kinghorn	Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (BIP Caerdydd a'r Fro)
Abigail Harris	Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP Caerdydd a'r Fro)
Gareth O'Shea	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru (CNC)
David Bents	Rheolwr Grŵp Gweithrediadau (GTADC)
Sarah McGill	Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid (CC)
Mark Brace	Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu
Stephen Murray	Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru
Victoria Harris	Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Jo Salway	Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau:

Y Prif Uwch Arolygydd	Heddlu De Cymru
Stephen Jones	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (CC)
Tony Young	Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Hannah Williams	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol (BIP Caerdydd a'r Fro)
Anne Wei	Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau (CC)
Joseph Reay	Rheolwr Polisi Economaidd (CC)
Jon Day	

Mynychwyr eraill:

Gareth Newell	Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil (CC)
Clive Bailey	Swyddog Polisi a Phartneriaethau (CC)
Nathan Swain	Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau (CC)

Eitem 3

Rachel Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol (BIP C a'r F)

Eitem 4

Graham Craven	Rheolwr, Academi Caerdydd (CC)

1.	**Croeso ac Ymddiheuriadau** Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.	
2.	**Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** <u>Bwrdd Cyflawni y BGC</u> Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018 fel cofnod cywir. <u>BGC</u> Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod llawn y BGC a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018 er gwybodaeth.	
5.	**Bargen Ddinesig** Rhoddodd Paul Orders ddiweddariad ar gynnydd yn sgil datblygiad Cynllun Busnes y Fargen Ddinesig. Trafodwyd themâu strategol y cynllun a'r pwysigrwydd o gynnwys partneriaid ar gam cynnar yn natblygiad projectau.	
3.	**Cyflawni'r Cynllun Llesiant** Amlinellodd Gareth Newell y trefniadau llywodraethu partneriaeth newydd arfaethedig ar gyfer cyflawni'r Cynllun Llesiant. Cafwyd trafodaeth ar osgoi dyblygu gweithgareddau a pha mor bwysig oedd trefniadau adrodd integredig. Cytunwyd bod alinio newidiadau o ran Aelodaeth y BGC a chapasiti datblygu sefydliadol ynghylch camau gweithredu'r Cynllun Llesiant yn egwyddor bwysig. Cefnogwyd y trefniadau mewn egwyddor, yn amodol ar waith pellach yn datblygu'r sgôp ar gyfer pob bwrdd rhaglen. Trafodwyd hefyd yr angen i integreiddio cydgynhyrchu a chyfranogiad dinasyddion wrth gynllunio a chyflawni'r Cynllun Llesiant. Cafodd ei gydnabod hefyd y byddai angen dull ffurfiol er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda 'Twf Gwydn'. **CYTUNWYD** • Datblygu trefniadau partneriaeth gan gynnwys rhaglen waith pob Bwrdd ymhellach a'u cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BGC. • Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen Twf Gwydn yn adnabod y dull mwyaf priodol er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda twf gwydn, ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cyflawni BGC.	**GN/SMG** **G O'Shea**

	• Ychwanegu'r Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion at y model llywodraethu partneriaeth arfaethedig.	**Yr Ysgrifen-yddiaeth**
	• Newid enw'r Grŵp Llywio BPRh i Grŵp Arwain Strategol IGCI.	**Yr Ysgrifen-yddiaeth**
	• Ystyried sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth gadarnhau cylch gorchwyl y Bwrdd Diogelwch Cymunedol, gyda chynrychiolaeth priodol o Iechyd a'r Trydydd Sector ar y Bwrdd Cyflawni Diogelwch Cymunedol.	**FK/S H-B**
4.	**Modiwl Hyfforddiant Partneriaeth – Cydweithredu'r Sector Cyhoeddus** Gwnaeth Graham Craven amlinellu modiwl hyfforddiant partneriaeth arfaethedig, yn seiliedig ar Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Academi Cymru. Cytunwyd y byddai digwyddiadau'n cael eu cynnal yn hytrach na rhaglen hyfforddi ffurfiol, er mwyn dod â thrawstoriad o reolwyr canol ynghyd i adeiladu perthnasau, i ddeall blaenoriaethau ac i ddatrys meysydd gwaith sydd angen cydweithrediad. **CYTUNWYD**	
	• Dull hyfforddi partneriaeth i'w ddatblygu i adlewyrchu ar y drafodaeth ar gynnal digwyddiadau sy'n llywio ac yn herio trawstoriad o reolwyr canol o ystod o sefydliadau.	**GC**
	• Graham Craven i gael manylion cyswllt y swyddogion hyfforddi a datblygu priodol.	**GC**
6.	**Eitemau BGC** **CYTUNWYD** <u>BGC Llawn: dyddiad i'w gadarnhau</u> • Cynllun Llesiant: • Cymeradwyaeth Terfynol – Cyflawni'r Cynllun Llesiant: Trefniadau Llywodraethiant • Ffocws Iechyd a Gofal Cymdeithasol <u>Bwrdd Cyflawni'r BGC: 5 Mehefin 2018</u> • Cynllun Ariannol Tymor Canolig – golwg o bob rhan o'r Gwasanaethau Cyhoeddus	**Yr Ysgrifen-yddiaeth**

7.	**Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall** Ni chodwyd unrhyw faterion.	
	Cloi **Cyfarfodydd nesaf:** • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, i'w gadarnhau • Bwrdd Cyflawni BGC, 5 Mehefin 2018	

Bwrdd Cyflawni BGC Caerdydd – Camau Gweithredu 8 Mawrth 2018

Camau Gweithredu	Yn gyfrifol
3. Cyflawni'r Cynllun Llesiant **CYTUNWYD:** • Datblygu trefniadau partneriaeth gan gynnwys rhaglen waith pob Bwrdd ymhellach a'u cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BGC.	**Gareth Newell/ Sarah McGill**
• Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen Twf Gwydn yn adnabod y dull mwyaf priodol er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda twf gwydn, ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cyflawni BGC.	**Gareth O'Shea**
• Ychwanegu'r Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion at y model llywodraethu partneriaeth arfaethedig.	**Yr Ysgrifenyddiaeth**
• Newid enw'r Grŵp Llywio BPRh i Grŵp Arwain Strategol IGCI.	**Yr Ysgrifenyddiaeth**
• Ystyried sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth gadarnhau cylch gorchwyl y Bwrdd Diogelwch Cymunedol, gyda chynrychiolaeth priodol o Iechyd a'r Trydydd Sector ar y Bwrdd Cyflawni Diogelwch Cymunedol.	**Fiona Kinghorn/ Sheila Hendrickson-Brown**
4. Modiwl Hyfforddiant Partneriaeth – Cydweithredu'r Sector Cyhoeddus **CYTUNWYD:** • Dull hyfforddi partneriaeth i'w ddatblygu i adlewyrchu ar y drafodaeth ar gynnal digwyddiadau sy'n llywio ac yn herio trawstoriad o reolwyr canol o ystod o sefydliadau.	**Graham Craven**
• Graham Craven i gael manylion cyswllt y swyddogion hyfforddi a datblygu priodol.	**Graham Craven**
6. Eitemau BGC **CYTUNWYD:** <u>BGC Llawn: dyddiad i'w gadarnhau</u> • Cynllun Llesiant: Cymeradwyaeth Terfynol • Cyflawni'r Cynllun Llesiant: Trefniadau Llywodraethiant • Ffocws Iechyd a Gofal Cymdeithasol <u>Bwrdd Cyflawni'r BGC: 5 Mehefin 2018</u> • Cynllun Ariannol Tymor Canolig – golwg o bob rhan o'r Gwasanaethau Cyhoeddus	**Yr Ysgrifenyddiaeth**